

Ein dull o roi sicrwydd

Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i roi sicrwydd ynghylch diogelwch a llesiant pobl sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant yn ystod pandemig COVID-19. Mae llesiant pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, gan gynnwys ein staff ein hunain, hefyd yn un o'n prif flaenoriaethau. Ledled Cymru, rydym wedi dysgu llawer o'n profiad o'r chwe mis diwethaf, ac rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio ein dull gweithredu yn ystod yr ail don hon.

Rydym yn adolygu ein dull gweithredu yn wythnosol. Bydd unrhyw gamau a gymerwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i leihau lledaeniad COVID-19.

Mae ein gwaith wedi'i ategu gan gyfres o egwyddorion, ac rydym wedi addasu'r ffordd rydym yn gweithio yn unol â'r rhain.

- **Rhoi pobl yn gyntaf:** mae llais a llesiant pobl yn parhau i fod wrth wraidd ein gwaith, a ategir gan ddull seiliedig ar hawliau. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheoleiddiedig, a'n staff.
- **Dull ymatebol a seiliedig ar risg:** byddwn yn gweithio mewn ffordd amserol a chymesur sy'n seiliedig ar risg. Byddwn yn monitro gwasanaethau ac awdurdodau lleol, yn ymateb i bryderon, ac yn cymryd camau i leihau'r risgiau i ddiogelwch a llesiant pobl, ac yn sicrhau gwelliannau.
- **Dull seiliedig ar dystiolaeth:** caiff ein gwaith ei lywio gan ddata a gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gan:
 - y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
 - y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau
 - y bobl sy'n comisiynu'r gwasanaethau
 - y bobl sy'n gweithio mewn rhwydweithiau gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol ehangach
 - ein canfyddiadau o arolygiadau
- **Cydweithio:** byddwn yn parhau i wrando, rhannu gwybodaeth, a chydweithio ym mhob rhan o'r sectorau gofal plant a gofal cymdeithasol ac â Llywodraeth Cymru er mwyn ysgogi gwelliant.
- **Myfyrio a dysgu:** byddwn yn dysgu o ddulliau newydd er mwyn llywio ein cam nesaf (adnewyddu) ac yn parhau i gael budd o'r ffyrdd newydd o weithio.

Rydym yn canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant. Lle y caiff risgiau eu nodi, rydym yn ymateb, yn gwrando, ac yn casglu adborth o amrywiaeth eang o ffynonellau am ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i bobl. Rydym yn treialu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o'r dechnoleg sydd ar gael i ni, a dysgu o hyn i lywio'r ffordd y byddwn yn gweithredu yn y dyfodol.

Rhoi ein hegwyddorion ar waith

Rydym yn cydnabod bod y gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant dan bwysau sylweddol, ac nid ydym am ychwanegu at hyn yn ddiangen. Serch hynny, mae'n hanfodol rhoi sicrwydd ynghylch diogelwch a llesiant pobl.

Mae Cyswllt AGC, sef ein gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf, yn parhau i fod yn gwbl weithredol, ac mae modd cyflwyno adborth a phryderon drwyddo.

Mae'n bwysig ein bod yn clywed am brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol neu ofal plant, a gan staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau hyn. Rydym yn annog pobl i roi adborth i ni drwy gysylltu â'n tîm Cyswllt neu drwy gwblhau ein harolygon ar-lein newydd

<https://arolygiaethgofal.cymru/arolygon-adborth>

Rydym yn arfer dull o weithio sy'n seiliedig ar dystiolaeth a risg. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd ac arweinwyr gofal plant er mwyn rhannu gwybodaeth a thystiolaeth am wasanaethau i lywio ein gwaith o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth a risg.

Cofrestru

Rydym yn parhau i flaenoriaethu ceisiadau newydd ac amrywiadau i fanylion cofrestru er mwyn helpu i greu capasiti ychwanegol ym maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant a darpariaeth gofal plant. Cysylltu ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr er mwyn parhau i oruchwylio gwasanaethau sy'n darparu 'capasiti ymchwydd' mewn ymateb i COVID-19.

Rydym wedi addasu ein prosesau cofrestru er mwyn sicrhau y gallwn barhau â'n gwaith mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Monitro

Mae ein hamserlen adolygu perfformiad ac arolygu arferol yn golygu y bydd amllder ein gweithgarwch yn amrywio rhwng gwasanaethau rheoleiddiedig ac awdurdodau lleol.

Rydym yn monitro gwasanaethau ac awdurdodau lleol drwy wneud y canlynol:

- ystyried adborth, gwybodaeth, hysbysiadau a phryderon
- casglu adborth gan bobl
- gweithio'n agos gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd
- cysylltu'n uniongyrchol â chynifer o wasanaethau â phosibl yn rheolaidd er mwyn ceisio sicrwydd bod gwasanaethau yn hyrwyddo diogelwch a llesiant pobl ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau

Bydd pa mor aml a'r ffordd y byddwn yn gwneud hyn yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau.

Lle mae ein gwaith monitro yn nodi risgiau posibl i lesiant pobl, rydym yn ceisio sicrwydd pellach. Gall hyn gynnwys:

- cysylltu â'r gwasanaeth/awdurdod lleol yn amlach
- ceisiadau am wybodaeth benodol
- taith rithwir o'r safle (lle y bo'n briodol)
- cyfweiliadau rhithwir â'r staff
- cysylltu â theuluoedd/rhieni
- cynnal trafodaethau â'r cyrff comisiynu
- adborth gan weithwyr proffesiynol sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn ddiweddar
- cyfarfod â'r unigolyn cyfrifol

Gall y wybodaeth a gesglir arwain at arolygiad.

Arolygu

Rydym bellach yn ymweld â gwasanaethau i gynnal arolygiadau ond rydym yn treulio cyn lleied o amser â phosibl ar safleoedd. Mae ein harolygiadau bob amser yn ystyried y thema 'llesiant' o'n methodoleg ac yn arwain at adroddiad cyhoeddedig. Rydym wedi atal y gwaith o gyhoeddi graddau ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae am y tro.

O dan rai amgylchiadau, mae modd i ni gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom heb ymweld â safle gwasanaeth. Lle y byddwn wedi gallu siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth heb ymweld â'r safle, caiff adroddiad arolygu ei gyhoeddi.

Caiff asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg eu defnyddio er mwyn sicrhau diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, y staff, a'r arolygwyr. Rydym yn sicrhau y caiff ein staff eu diogelu ac yn lleihau'r risgiau o drosglwyddo heintiau cymaint â phosibl. Rydym yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol:

- rhoi hyfforddiant i'r holl staff arolygu ar feysydd allweddol mewn perthynas â'r pandemig, gan gynnwys rheoli heintiau a'u hatal
- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cynnal asesiad risg
- defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) sy'n cydymffurfio â'r safonau a nodir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rydym yn parhau i gydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer gwaith ar y cyd ac er mwyn lleihau achosion o ddyblygu.

Gorfodi

Rydym yn parhau i weithio yn unol â'n canllawiau ar Sicrhau Gwelliant a Gorfodi, gan gymryd camau gorfodi pan fydd angen.

Adolygu perfformiad awdurdodau lleol

Rydym yn cynnal arolygiadau seiliedig ar risg o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol os bydd gennym bryderon ynghylch diogelwch a llesiant pobl. Yn

ogystal, rydym wedi datblygu rhaglen o wiriadau sicrwydd ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.

Gweithgarwch arall

Rydym yn cydgysylltu ein gwaith cyfathrebu ag amrywiaeth o sefydliadau gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth a chanllawiau clir i ddarparwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

Rydym yn parhau i rannu data a gwybodaeth â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn llywio gwaith cynllunio ac ymateb mewn perthynas â COVID-19. Rydym hefyd yn rhannu materion a godir â ni gan ddarparwyr er mwyn sicrhau y cânt eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n hybu canlyniadau cadarnhaol i bobl.